

Llond côl o bosibiliadau

“Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chiwi oll yng Nghrist Iesu.” (adn. 28)

Beth am ddarllen Galatiaid 3:15–29 ac yna myfyrio

Echdoe, bu i ni ddweud, petai'r Ysbryd oedd wedi meddiannu'r Eglwys Fore, yn arbennig yr eglwys yn Antiochia, wedi ei gynnal yn hanes yr Eglwys, yna byddai yr Eglwys wedi gadael llawer iawn mwy o ddylanwad ar y byd. Bu i'r Eglwys gychwyn yn dda, ond bu iddi golli ei hadnabyddiaeth o gydraddoldeb ar hyd y daith. Yn wir, erbyn oes Fictoria, gwelwyd y rhagfarn yma ar ei hamlycaf mewn nifer o eglwysi.

Mae un awdur yn nodi y byddai'r Eglwys Fore wedi methu dygymod o gwbl â'r rhagfarn yma. Fe fu i'r Eglwys, dros y canrifoedd, lyncu rhagfarn, gwahaniaethu ar sail dosbarth, a cholli ysbryd Crist o'i mewn. Collwyd y ddirnadaeth y mae Duw yn ei roi dros y blynyddoedd, ac yn ei le, cafwyd ysbryd rhagfamlyd, hiliol o fewn Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. Os na fydd i ni ailfeddiannu agwedd meddwl y Cristnogion cynnar, ni fydd ein neges yn effeithiol yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae pob person yn llond côl o bosibiliadau, dim ond i ni roi'r cyfleon a'r amgylchiadau iawn iddynt. Fe ddylem gydnabod hyn. Mae bod yn Gristion yn rhoi i ni bosibiliadau helaeth, oherwydd wrth i ni ddod i gyffyrddiad â Iesu, yr ydym yn dod i gyffyrddiad â'r un sydd yn gallu creu mwy o wahaniaeth ynom ni na'r un dylanwad arall yn y bydysawd.

Dywedodd un oedd yn arfer darlithio yn y maes addysg: “Does yna ddim y fath beth â phobl sydd, oherwydd eu hil, yn iselradd. Does yna neb, oherwydd ei hil, sydd yn perthyn i ddosbarth uwch ychwaith. Os yw pawb yn derbyn yr un cyfleon, mi fydd y meddwl dynol yn ei amlygu ei hunan yn weddol wastad ar draws pob cenedl.” Un o'r myfyrwyr a lwyddodd orau erioed ym Mhrifysgol Calcutta, lle mae yna ddegau o filoedd o fyfyrwyr, oedd gŵr oedd yn perthyn i genedl a arferai, yn y blynyddoedd a fu, ladd pobl eraill er mwyn eu bwya. Mae yna bosibiliadau ymhob dyn, ymhobman, o bob cefndir cymdeithasol, ac o bob hil dan yr haul.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Barn. 6:11–16; 2 Sam. 7:8–16; Jer. 1:4–10; 1 Cor. 1:26–31; 2 Cor. 4:7

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam fod Duw yn aml yn dewis y rhai iselradd?
2. Beth yw llwyddiannau'r bobl hyn?

Gweddi

Arglwydd, gwared fi a gwared dy Eglwys rhag bod yn hiliol. Gwared ni hefyd rhag y rhagfarn sydd yn cefnu ar rai oherwydd eu cefndir cymdeithasol. Diolch i ti am y ffydd sydd yn ein gwneud ni i gyd yn un. Rwyf am ddelio â phob un yn gydradd. Yn enw Iesu. Amen.